CYFRES B11

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o lyfr Exodus

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

DARLLENWCH
Exodus 19: 1-15

ADNOD
ALLWEDDOL
1 Pedr 1: 16

Gwers 1 Moses: Cwrdd â Duw

Roedd Ben a Beca wedi gwisgo'u dillad gorau yn barod i gwrdd â pherson pwysig. Ychydig cyn i'r ymwelydd gyrraedd, aethon nhw allan i chwarae, gan anufuddhau i'w mam. Pan ddaethon nhw i'r tŷ i gwrdd â'r ymwelydd pwysig, roedden nhw'n faw o'u pen i'w traed. Roedd mam Ben a Beca yn teimlo'n flin oherwydd roedden nhw'n fudr ar y 'tu allan'. Gallwn ni fod yn 'fudr' neu'n 'aflan' ar y 'tu mewn' hefyd.

Dyna sy'n digwydd pan fyddwn ni'n gwneud pethau drwg ac yn pechu yn erbyn Duw. Mae hyn yn ein cadw oddi wrth Dduw hyd nes y byddwn ni'n edifarhau (dweud 'sori') ac yn derbyn maddeuant Ganddo. Mae rhywbeth arbennig iawn am gymeriad Duw.

C **Defnyddiwch lythyren gyntaf pob un o'r lluniau hyn i ffurfio gair sy'n disgrifio Duw.**

___ ___ ___ ___ ___ ___ ___ _____

1

Bu'r Israeliaid yn anufudd i Dduw, yn union fel ni. Bu'n rhaid i Dduw ddysgu nifer o bethau iddynt ar eu taith hir drwy'r anialwch.

C **Am ba hyd roedd yr Israeliaid wedi bod yn teithio ers gadael yr Aifft? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir**

3 diwrnod 3 wythnos 3 mis 3 blynedd

1

C **Buon nhw'n gwersylla ger mynydd – beth oedd enw'r lle?**

Yn y lle hwn, bu Duw'n siarad â Moses a dywedodd wrtho beth i'w ddweud wrth yr Israeliaid.



1

C **Adroddodd Moses wrth y bobl beth roedd Duw wedi'i ddweud. Beth oedd eu hateb? Ticiwch y blwch cywir.**

"Gwnawn rai o'r pethau ddywedodd Duw." ☐

"Gwnawn bopeth ddywedodd Duw." ☐

"Meddyliwn am yr hyn ddywedodd Duw." ☐

1

Roedd Duw eisiau i'r Israeliaid ymddiried ym Moses, yn yr un ffordd ag rydych chi'n ymddiried yn eich rhieni i ofalu amdanoch.

C **Sut y dywedodd Duw y byddai'n dod i siarad â Moses? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.**

Gwynt

Cwmwl

Mellt

1

Roedd yn rhaid i'r bobl ymbaratoi cyn y gallai Duw siarad â Moses.

C **Cwblhewch y Croesair er mwyn darganfod beth roedd Duw yn disgwyl i'r bobl ei wneud.**



I Lawr

1. Enw'r mynydd.
2. Cyflwynodd y dyn hwn orchmynion Duw.
5. Byddai Duw'n disgyn yng ngŵydd y bobl ymhen _____ diwrnod.
8. Rhoddwyd gorchymynion Duw i'r _____.
9. Roedd rhaid i bob un o'r bobl olchi ei _____.

Ar Draws

3. Doedden nhw ddim i fynd i fyny'r _____.
4. Roedd rhaid i'r bobl wneud hyn i'w dillad.
6. Pe bai unrhyw un yn anufuddhau, byddai'n cael ei _____
7. neu ei _____.

9

C **Ysgrifennwch yn y blwch beth fyddai'n digwydd i'r rhai fyddai'n anufuddhau i orchymyn Duw i beidio â chyffwrdd â'r mynydd.**

1

Utgorn o Gorn Hwrdd

C **Doedd dim hawl gan yr Israeliaid ddringo'r mynydd hyd nes – beth?. Llanwch y llythrennau coll, a, e, i, o, u, w, y, er mwyn canfod pryd.**

N _ s _ c _ n _ r _ n h _ r _ r _ c _ rn h _ r d d.

2

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol. Tanlinellwch y gair sy'n disgrifio Duw, ac a ddylai hefyd ddisgrifio pob un ohonom ni.**

3

Mae Duw yn sanctaidd, da a pherffaith, ond mae Ef yn ein caru gymaint fel Ei fod eisiau maddau i ni ein pechodau. Dyma pam yr anfonodd Duw Ei Fab, yr Arglwydd Iesu, i farw trosom. Rhaid i ni gael ein glanhau o'n pechodau er mwyn gallu siarad â Duw a chael Ei help yn ein bywydau. Beth am i chi ofyn Iddo am y maddeuant hwnnw nawr?

Enw _____

DARLLENWCH
Exodus 20: 1-12

ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 22: 37

Gwers 2 Moses: Adnabod Duw



Snakes and Ladders yw hoff gêm Ben a Beca. Mae gan bob gêm ei rheolau er mwyn i bawb chwarae'n deg. Os bydd rhywun yn torri'r rheolau, yna caiff y gêm ei difetha. Mae Duw wedi llunio rheolau, nid ar gyfer chwarae gêmau, ond i ddangos i ni'r ffordd orau i fyw. Lluniodd Ef y rheolau am ei fod yn ein caru. Pan fyddwn yn eu torri, mae hyn yn difetha'n bywydau ac yn gwneud Duw a ninnau'n drist.

C Rhaid datrys y cod er mwyn canfod enw'r rheolau arbennig roddodd Duw i Moses ar Fynydd Sinai. 2

✹ _ ✤❄❄ _ _ _ ❄❑▲✣❄✹❍✹■ _ _ _ — _ _ _ _ _

A=❁ C=✣ D=✤ E=❄ G=❄ H=❄ L=● M=❍ N=■ O=❑ R=▲ T=▼ U=◆ W=◗ Y=✹

C Beth ddywedodd Duw amdano'i Hun yn y gorchymyn cyntaf? Llanwch y llythrennau coll (aeiouwy) er mwyn dod o hyd i'r ateb. 2

(Mae'n bosibl y bydd yr union eiriau yn wahanol yn eich Beibl chi)

M _ f _ _ _'r _ r g l _ _ d d d _ Dd _ _;

n _ c h _ m _ r d d _ _ _ _ _ _ r _ _ l l _ r _ _ h _ n _ m _.

Roedd Duw'n awyddus i bobl Ei garu a'i addoli, ond roedden nhw'n aml yn creu gau dduwiau. Byddent yn ymgrymu o'u blaen ac yn eu haddoli.

C Beth oedd yr enw ar eu gau dduwiau? 1

✤ ❄ ● ◗ ❁ ◆ _ _ _ _ _ _ (Edrychwch ar y cod uchod)

C Sut oedd Duw'n teimlo pan fyddai'r bobl yn gwneud duwiau o waith llaw? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir. 1

hapus blin balch trist eiddigeddus llawen

Hyd yn oed heddiw, mae perygl i ninnau hefyd addoli delwau neu eilunod.

Delw yw unrhyw beth sy'n cymryd lle Duw yn ein bywydau.

Byddai addoli arwyr neu ddilyn y ffasiwn ddiweddaraf yn gamgymeriad os yw hynny'n ein rhwystro rhag dilyn ffordd Duw. Os oes unrhyw beth yn dod rhyngom â Duw, yna mae'r peth hwnnw yn ddelw neu'n eilun.

C Ysgrifennwch dri pheth all fod yn eilun i bobl heddiw. 3

1	2	3

Ydych chi wedi clywed pobl yn defnyddio enw Duw fel rheg (gair drwg)? Mae Duw yn sanctaidd, ac mae Ef yn ein rhybuddio rhag gwneud hyn.

C Ysgrifennwch beth mae Duw'n ei orchymyn ynglŷn â hyn. (Adnod 7) 2

Mae'r gorchymyn nesaf (adnod 8) yn sôn am neilltuo diwrnod arbennig o orffwys, i anrhydeddu Duw. Dydd Sadwrn yw'r diwrnod hwnnw i'r Iddewon. Dydd Sul yw'n diwrnod arbennig ni.

C **Beth yw'r enw ar ddiwrnod arbennig yr Iddewon?** 1

C **Beth ddywedodd Duw na ddylai'r Israeliaid ei wneud ar Ei ddiwrnod arbennig Ef? Tanlinellwch yr ateb cywir.** 1

ymweld â ffrindiau canu caneuon gweithio teithio

C **Pam roedd Duw'n gofyn am i'r diwrnod hwn gael ei gadw'n ddiwrnod arbennig bob wythnos? (gweler adnod 11)** 2

Mae'r gorchymyn yn adnod 12 yn rhoi rhywbeth i ni ei wneud ac mae'n addo rhywbeth hefyd.

C **Beth mae'n ddweud wrthym am wneud?** 1

C **Nawr, ysgrifennwch yr addewid.** 1

C **Ysgrifennwch un ffordd rydych chi'n meddwl y gallwch chi anrhydeddu neu ufuddhau i'ch rhieni.** 1

Roedd y Deg Gorchymyn yn gyfarwyddiadau arbennig oedd yn dweud wrth bobl am y ffordd orau i fyw dan ofal Duw.

C **Mae ci gan Ben a Beca. Ewch ag ef am dro. Dilynwch y cyfarwyddiadau'n ofalus.**

I fyny 3 sgwâr, i'r dde 5 sgwâr, i lawr 2 sgwâr, i'r chwith 4 sgwâr, i lawr 1 sgwâr, i'r chwith 1 sgwâr.

Os dilynoch chi'r cyfarwyddiadau, dylech fod nôl ble dechreuoch chi. Mae cyfarwyddiadau a rheolau yn dweud wrthym sut i wneud pethau. Dychmygwch fyd lle mae pawb yn gwneud fel y mynno! Fyddai'r byd hwnnw ddim yn lle braf i fyw ynddo a byddai pob un ohonom yn dioddef o ganlyniad i hynny.

Dechreuwch yma:



C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n crynhoi cyfraith Duw yng ngeiriau'r Arglwydd Iesu.** 2

Enw _____

DARLLENWCH
Exodus 20: 13-21,
Mathew 19: 16-30.

ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew: 19: 21

Gwers 3 Moses: Ufuddhau i Dduw

Ydych chi erioed wedi addo ymddwyn yn dda am ddiwrnod cyfan? Ydych chi erioed wedi llwyddo i gadw'ch addewid? Efallai eich bod yn dda iawn am gadw'r rheolau gartref neu yn yr ysgol, ond mae'n amhosibl bod yn berffaith. Mae safonau Duw, sydd wedi'u gosod yn y Deg Gorchymyn, yn uwch hyd yn oed na'r safonau sydd wedi eu pennu ar ein cyfer gan y rhai sy'n ein caru ac yn gofalu amdanom. Mae Duw'n ein caru gymaint, fel Ei fod wedi rhoi i ni ffordd i dderbyn maddeuant pan fyddwn ni'n methu cyrraedd Ei safonau. Yr Arglwydd Iesu yw'r ateb fel y cewch weld! Mae gweddill y gorchmynion yn dweud wrthym am rai o'r pethau na ddylem eu gwneud er mwyn ufuddhau i Dduw.

A	U	B	E	N	I	D	O	G
H	CH	W	E	N	N	Y	CH	LL
C	DD	A	LL	CH	T	N	T	S
U	C	S	C	O	E	Y	E	FF
S	E	Y	U	C	A	W	E	R
E	Y	N	I	L	LL	D	L	E
C	Y	M	Y	D	O	G	U	R

C Mae'r atebion i'r cwestiynau canlynol i'w gweld yn y Chwilair. Maen nhw wedi'u cuddio i fyny, i lawr, ar draws a thuag yn ôl. Ysgrifennwch yr atebion yn y bylchau isod a rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair. .

1.Beth mae'r 7fed Gorchymyn yn ddweud na ddylech ei wneud? (ad. 14) .....
2.Beth mae'r 8fed Gorchymyn yn ddweud na ddylech ei wneud? (ad. 15) .....
3.Dydych chi ddim i ddweud celwydd am bwy? (ad. 16) .....
4.Beth mae'r 6ed Gorchymyn yn ddweud na ddylech ei wneud? (ad. 13) .....
5.Pa air sy'n cael ei ddefnyddio yn y 10fed gorchymyn i ddweud bod rhywun eisiau rhywbeth sy'n eiddo i rywun arall? (ad. 17) .....
6.Pa anifail, sy'n eiddo i'ch cymydog, ddylech chi ddim fod eisiau ei gael?(ad. 17) .....

6

Tra roedd Moses yn dweud wrth y bobl beth oedd y gorchmynion, fe welon nhw ac fe glywon nhw nifer o bethau'n digwydd.

C Ticiwch y golygfeydd a'r seiniau cywir.

Mellt Haul Mwg Drwm Utgorn o Gorn Hwrdd

3

C Beth ddywedodd y bobl wrth Moses? Llanwch y bylchau.

Llefara _ _ wrthym, ac fe wrandawn;
ond _ _ _ _ â gadael i _ _ _ _ lefaru
_ _ _ _ _ _, rhag inni _ _ _ _.

2

C Ysgrifennwch sut roedden nhw'n teimlo.

1

C **Dywedodd Moses wrth y bobl fod Duw yn eu profi. Pam roedd Duw yn gwneud hyn? (adnod 20)**

2

Wrth i chi ddarllen y gorchmynion olaf hyn, oeddech chi'n meddwl yn dawel fach, "Wel, rwy'n dda gan 'mod i wedi cadw pob un o'r rhain"? Cyfarfu'r Arglwydd Iesu â dyn oedd yn dweud ei fod wedi cadw pob un o'r gorchmynion hyn hefyd.
Darllenwch Mathew 19: 16-22 unwaith eto.

C **Beth oedd y dyn ifanc eisiau ei wybod?**

1

C **Er mwyn dod o hyd i ateb Iesu, cwblhewch y Grid Geiriau drwy osod pob llythyren yn y lle cywir ar y grid.**

5				■			■					
4					■		■					■
3				■						■	■	■
2							■	■	■	■	■	■
1												■
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12

Er enghraifft s = (6, 5) sef 6 ar draws a 5 i fyny.

a (2,2)
b (5,3)
c (1,2) (4,1)
d (3,5) (4,4) (9,3) (3,2)
e (9.4)
f (1.4)
g (1.1)
h (5,1)
i (12,5) (6,4) (1,3) (9,1)
m (8,5) (8,4) (6,1)
n (2,5) (10,5) (11,5) (3,4) (11,4) (8,1) (11,1)
o (1,5) (5,5) (2,1) (10,1)
r (3,3) (6,2) (3,1)
s (6,5)
w (10,4) (7,3) (4,2)
y (9,5) (2,4) (6,3) (8,3) (7,1)
' (2,3) (5,2)

3

Roedd y dyn ifanc cyfoethog yn meddwl fod pob dim yn iawn. Ond, dywedodd yr Arglwydd Iesu wrtho fod rhywbeth yn dal o'i le yn ei fywyd.

C **Beth ofynnodd yr Arglwydd Iesu i'r dyn ifanc cyfoethog ei wneud?**

2

Aeth y dyn ifanc cyfoethog i ffwrdd yn drist oherwydd roedd ei eiddo mor werthfawr yn ei olwg fel na fedrai ei roi i ffwrdd er mwyn dilyn yr Arglwydd Iesu. Drwy ddilyn yr Arglwydd Iesu y bydd rhywun yn cael mynd i fywyd tragwyddol ac nid trwy wneud gweithredoedd da. Mae llawer o bethau yn ein gwahanu ni oddi wrth Dduw. 'PECHOD' yw'r gair mae'r Beibl yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'r pethau drwg hyn. Yr Arglwydd Iesu yw'r unig ffordd i ni gyrraedd at Dduw oherwydd cafodd Ef ei gosbi am ein pechodau ni pan fu Ef farw ar y groes.

NI PECHOD DUW

Dywedodd Ef, "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd". Nid yw neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi". Ioan 14: 6

IESU
NI DUW

Enw _____

DARLLENWCH
Exodus 32: 1-26

ADNOD ALLWEDDOL
Exodus 32: 26

Gwers 4 Moses: Siomi Duw

Mae pob un ohonom yn hoffi bod yn boblogaidd, yn arbennig gyda'n ffrindiau, ond weithiau bydd y 'gang' yn gwneud pethau sy'n tristáu Duw. Ydych chi'n 'dilyn y gang' neu ydych chi'n penderfynu gwneud dymuniad Duw? 'Dyw hyn ddim yn benderfyniad hawdd bob tro, ond ffordd Duw sydd orau, a dyna fu'n rhaid i Moses ei esbonio wrth yr Israeliaid.

C **Aildrefnwch y llythrennau ac ysgrifennwch yn y swigen siarad beth ddywedodd yr Israeliaid wrth Aaron pan oedd Moses ar y mynydd am amser mor hir. .**
NWGA I IN UWIADDU I YDFN N'O LABEN.

_ _ _ _

C **Beth wnaeth Duw wedi Iddo wrando ar beth oedd gan Moses i'w ddweud? Atebwch GWIR neu ANWIR**

2

Dinistriodd yr Israeliaid. .....
Wnaeth Duw ddim anfon y trychineb a addawodd ar Ei bobl. .....



C **Beth wnaeth Moses â'r ddwy lech garreg, pan welodd y bobl yn dawnsio o gwmpas y llo aur?**

1

C **Disgrifiwch beth wnaeth Moses â'r llo?**

2

Sylweddolodd Moses fod Aaron wedi gadael y bobl i golli rheolaeth arnynt eu hunain.

C **Ble safodd Moses er mwyn iddo siarad â'r Israeliaid? (adnod 26)**

1

C **Darllenwch yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch yn y swigen siarad beth ddywedodd Moses wrth y bobl.**

2

C **Pwy ymatebodd i alwad Moses?**

1

Yn ddiweddarach, cafodd y rhai oedd wedi gwrthod dod at Moses eu cosbi'n ddifrifol. Lladdwyd llawer ohonynt. Yn y diwedd, daeth tristwch a thrychineb i'w rhan oherwydd eu hanufudd-dod. Mae ein Duw ni yn Dduw cariadus. Dangosodd hyn drwy anfon Ei Fab i gymryd y gosb roeddem ni'n ei haeddu am yr holl droeon rydym ni wedi torri cyfraith Duw. Mae pob un ohonom wedi pechu ond gallwn gael maddeuant drwy'r Arglwydd Iesu. Rhaid i ni'n gyntaf droi oddi wrth ein pechodau, a rhoi ein ffydd yn yr Arglwydd Iesu. Yna, rhaid i ni ofyn am gymorth Duw bob dydd, er mwyn ein helpu i ddewis y pethau iawn i'w gwneud a'u dweud.

Dyma her i chi:

Y tro nesaf y bydd criw o'ch ffrindiau yn gwneud rhywbeth rydych chi'n gwybod sy'n anghywir, DEWISWCH BEIDIO â'u dilyn, ond DEWISWCH ddilyn Duw!

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120